



**Cymru Masnach Deg**  
**Fair Trade Wales**

# MANIFFESTO 2021



# MANIFFESTO 2021

Wrth i'r DU geisio gwneud Cytundebau Masnach rhyngwladol cyflym, a gyda Covid-19 yn parhau i achosi effeithiau iechyd ac economaidd enfawr dros y byd, rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i ymrwymo i greu Cymru sy'n gweithredu'n gyfrifol yn rhyngwladol.

Rydym eisiau i'r Senedd nesaf, a Llywodraeth Cymru, weithio tuag at wreiddio Masnach Deg ym maesydd Polisi Masnach, Caffael ac Addysg.


## EIN GOFYNION

1. Datblygu Polisiau Masnach sy'n canolbwyntio ar gyfrifoldeb byd-eang, ac sy'n pwysu am gytundebau masnach rhyngwladol newydd, fydd yn hyrwyddo hawliau gweithwyr, cynaliadwyedd a masnach deg
2. Cynnal a chryfhau'r ymrwymiad i Fasnach Deg ym mholisiau a chanllawiau caffael Llywodraeth Cymru a'r Senedd
3. Sicrhau bod Cymru yn datblygu cenedl o ddinasyddion byd-eang moesegol a gwybodus, yn unol â gofynion y Cwricwlwm newydd, drwy gefnogi'r datblygiad o adnoddau addysgu effeithiol, ar gyfer addysgu wyneb yn wyneb ac ar-lein

## CYMRU MASNACH DEG YDYM NI

Nod Cymru Masnach Deg ydy cefnogi, datblygu a hyrwyddo'r mudiad Masnach Deg yng Nghymru, sef Cenedl Masnach Deg gyntaf y byd.

Rydym yn arbenigwyr ar Fasnach Deg a Chyfiawnder Masnach. Rydym yn cefnogi cymunedau a sefydliadau sydd yn angerddol dros Fasnach Deg. Rydym yn bartner yn Hub Cymru Affrica, ac yn rhan o Fudiad Cyfiawnder Masnach y DU. Mae Cymru Masnach Deg yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Raglen Cymru ac Affrica.



# YNGHYLCH MASNACH DEG

Nod y mudiad Masnach Deg byd-eang ydy gwneud masnach yn deg i bawb, a hyrwyddo mathau eraill o fasnach sy'n rhoi pobl a'r blaned o flaen elw.

Mae dros 6000 o gynhyrchion wedi'u hardystio fel cynhyrchion 'Masnach Deg', wedi iddynt ddangos eu bod yn cydymffurfio â safonau rhyngwladol trwyadl.

Y System Masnach Deg:

- Gwarantu 'isafswm pris'
- Talu 'premiwm' ychwanegol - yr uchaf ymysg unrhyw un o'r cynlluniau ardystio
- Archwiliadau annibynnol
- Gwneud penderfyniadau democrataidd
- Mae rhwydweithiau cynhyrchwyr yn darparu cymorth a hyfforddiant am ddim
- Mae 50% o fwrdd Masnach Deg yn cynrychioli cynhyrchwyr yn uniongyrchol

## BETH MAE CYMRU WEDI EI WNEUD HYD YN HYN

- Daeth Cymru yn Genedl Masnach Deg am y tro cyntaf yn 2008
- Ymrwymodd y Senedd a Llywodraeth Cymru i gaffael cynhyrchion Masnach Deg.
- Sefydlodd Llywodraeth Cymru raglen Cymru ac Affrica sy'n helpu pobl yng Nghymru i drechu tlodi yn Affrica. Mae'r cynllun yn parhau i fod yn weithredol heddiw.
- Mae deddfwriaeth yn ymrwymo Cymru i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy drwy Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda'r nod o sicrhau bod Cymru'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.
- Nod Cwricwlwm Cymru ydy i ddysgwyr ddod yn 'ddinasyddion moesegol a gwybodus o Gymru a'r Byd'.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflogi cydlynedd gwrth-gaethwasiaeth cyntaf y DU, i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yng Nghymru, ac wedi ysgrifennu'r cod ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.
- Mae 18 o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi ennill statws Sir Masnach Deg.
- Ar hyn o bryd, mae gan Gymru wyth o siopau Masnach Deg, 30 o grwpiau Masnach Deg, a 200 o ysgolion Masnach Deg
- Cefnogodd Llywodraeth Cymru brosiect Coffi Newid Hinsawdd yn 2020, gan gefnogi mwy na 3,000 o ffermwyr Masnach Deg yng nghefn gwlad Uganda i gael pris teg am eu coffi

## COVID-19

Mae'r pandemig byd-eang wedi achosi gostyngiad sydyn a chyflym i brisiau mewn marchnadoedd nwyddau byd-eang, gan greu tlogi ymysg nifer o ffermwyr a gweithwyr. Mae Masnach Deg yn cynnig sicrwydd i gynhyrchwyr drwy'r isafswm pris Masnach Deg, ac hefyd gwydnwch a llais drwy eu mentrau cydweithredol cymunedol a phwyllgorau gweithwyr.

## CYTUNDEBAU MASNACH NEWYDD

Mae masnach yn gallu bod yn elfen sylfaenol o greu ffyrdd hirdymor a chynaliadwy o fynd i'r afael â thlogi. Mae 10-15% o fewnforion bywd y DU yn allforion o wledydd sy'n datblygu, a gallant fod yn gyfran fawr o allforion gwledydd unigol.

Wrth i'r DU ddechrau trafod ffurfio Cytundebau Masnach Rydd y tu allan i'r UE, mae'n rhaid i Gymru hyrwyddo polisi masnach sydd o fudd i wledydd sy'n datblygu, ac i gynhyrchwyr a gweithwyr, yn unol â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

## ARGYFWNG HINSAWDD

Er cyn lleied y mae ffermwyr ffermydd bychain yn ei wneud i achosi newid hinsawdd, nhw sydd yn byw ar linell flaen yr argyfwng, ac maen nhw'n barod yn cael eu taro gan sychder cynyddol, llifogydd a thywydd newidiol ac anrhagweladwy. Mae Cymru Masnach Deg yn ymgyrchu dros incwm byw i bob ffermwr a gweithiwr. Heb incwm byw, ni all cynhyrchwyr fuddsoddi mewn addasiadau angenrheidiol i ddelio gyda'r newid yn yr hinsawdd.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch gyda:  
Aileen Burmeister, Cydlynnydd Cenedlaethol**

**[aileen@fairtradewales.org.uk](mailto:aileen@fairtradewales.org.uk)**



An equal world,  
trading fairly.

[fairtradewales.com](http://fairtradewales.com)